Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych: Asesiad Llesiant

Adborth a chyngor oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
14th March 2022

1: Crynodeb

- Asesiad llesiant cryf sy'n archwilio ystod eang o bynciau a themâu mewn modd integredig.
- Wedi'i gyflwyno'n glir gyda strwythur wedi'i drefnu yn ôl methodoleg, dimensiynau llesiant, nodau llesiant, ardaloedd cymunedol a chyfeiriadur pynciau.
- Ymagwedd 'a arweinir gan ymgysylltu' sy'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau a thechnegau.
- Ystod dda o ddata a gwybodaeth yn cael eu defnyddio drwyddi draw, gan gynnwys cydnabyddiaeth onest o 'gyfyngiadau' posibl.
- Mae Adran 3 (isod) yn amlygu rhai meysydd a fyddai, o'u datblygu ymhellach, yn helpu i gryfhau'r asesiad sef: cyfranogiad, tueddiadau'r dyfodol, cydraddoldeb, y Gymraeg, cyflwyniad a chynllun, a macsimeiddio cyfraniad eich BGC at nodau llesiant Cymru.
- Mae Adran 3 hefyd yn amlinellu meysydd eraill (dymunol) i'w hystyried yn yr asesiad.

2: Tystiolaeth o arfer da yn yr asesiad llesiant

Proses a methodoleg

Mae'n gadarnhaol i glywed eich bod wedi mabwysiadu ymagwedd 'a arweinir gan ymgysylltu' gyda chymunedau lleol a staff sy'n gweithio mewn sefydliadau sector cyhoeddus. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo llais trigolion o fewn y canfyddiadau cyffredinol ac yn sicrhau bod yr iaith yn fwy hygyrch.

Mae'r asesiad drafft yn amlinellu eich ymagwedd tuag at ymgysylltu â'r gymuned, a oedd yn cynnwys gweithdai rhithwir, holiaduron, a grwpiau ffocws gyda phobl ifanc. Rydym yn croesawu'n arbennig eich gwaith i ddatblygu fforwm llais cymunedol rhyngweithiol rhanbarthol ar gyfer 'cynrychiolwyr o grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml', er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ehangach yn cael eu cynnwys yn yr asesiad. Mae'r technegau ymgysylltu â'r gymuned hefyd yn awgrymu lefel o gydweithio rhwng partneriaid BGC a grwpiau cymunedol ehangach. Er enghraifft, trwy ddarparu copïau caled o'r arolwg mewn Siopau Un Stop ac mewn llyfrgelloedd.

Mae'r asesiad drafft yn dangos integreiddio da ar draws ystod eang o destunau, dimensiynau llesiant a nodau llesiant – dyma un o gryfderau'r asesiad. Er enghraifft, mae'n dda gweld y naratif ar drafnidiaeth yn trafod anghydraddoldeb ac yn nodi y bydd y potensial ar gyfer mynediad i gerbydau trydan fforddiadwy yn rhwystr i'r rhai ar incwm isel, ac mai'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod o dan anfantais economaidd-gymdeithasol fydd yn debygol o gael mynediad yn unig i gerbydau trydan hŷn neu gerbydau petrol/diesel sy'n achosi mwy o lygredd wrth iddynt ddod yn dod yn ddrutach i'w rhedeg.

Mae yna fyfyrdod gonest ar heriau'r pandemig Covid-19, yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu. Mae hyn hefyd yn wir yn eich myfyrdod ar eich gallu i ddadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol, y sector cymunedol, a rôl yr economi anariannol (e.e., gofal di-dâl, banciau bwyd, trosglwyddo asedau cymunedol) sydd, fel y dywedwch, wedi bod yn her.

Mae hefyd yn dda i weld yr asesiad yn ystyried effeithiau posibl tymor hwy pandemig Covid-19, lle'r ydych, er enghraifft, yn tynnu sylw at y potensial ar gyfer newidiadau posibl yn y ffordd y caiff addysg uwch ei darparu a allai ddylanwadu ar ble mae pobl ifanc yn byw, a newidiadau mewn cyfleoedd ac

arferion cyflogaeth, a phrisiau tai yn cynyddu os bydd cyfleoedd i weithio gartref yn annog adleoli o'r tu allan i'r ardal.

Defnyddir ystod dda o ffynonellau data drwy gydol yr asesiad drafft yn ogystal â chydnabyddiaeth glir o 'gyfyngiadau' posibl. Mae'n ddefnyddiol bod pob pwnc strategol yn cynnwys crynodeb o gyfyngiadau yn eich tystiolaeth neu ddadansoddiad, a'ch ymrwymiad i gydweithio hyd a lled y rhanbarth i helpu i fynd i'r afael â'r rhain. Er enghraifft, mae'n amlygu bylchau data meintiol mewn perthynas â phobl â nodweddion gwarchodedig sy'n awgrymu eich bod wedi archwilio'r data a'r modd y gallai setiau data traddodiadol eithrio grwpiau ymylol.

Mae'r asesiad yn amlygu'r modd y mae'n adeiladu ar y gwaith yr ymgymerwyd ag ef ac a gyhoeddwyd yn 2017, a'i fwriad yw rhoi amlinelliad o'r materion mwy strategol sy'n effeithio ar Siroedd Conwy a Dinbych. Mae'n dda clywed am eich bwriad i ystyried rhoi blaenoriaeth i nifer o'r meysydd testun er mwyn cadw'r asesiad yn hylaw ac effeithiol. Fel y dywedwch, dylai hyn helpu i ddarparu pont glir rhwng y pynciau strategol a drafodwyd a'r ymateb wrth i chi ddatblygu eich cynllun llesiant.

Mae'r asesiad drafft yn datgan *"bwriedir hyn yn unig fel y cam cyntaf yn y broses, a bydd yn esblygu fel asesiad dros amser, yn arbennig wrth i gysylltiadau a phartneriaethau ymchwil ac ymgysylltiad rhanbarthol (yn cynnwys cyd-gynhyrchu) ddatblygu."* Mae hyn yn awgrymu ymrwymiad i ddysgu parhaus ac iteraidd i drwytho eich gweithgareddau.

Rydym yn croesawu'r ffaith eich bod wedi cynnwys cwestiynau am yr asesiad y byddwch yn ffocysu arnynt. Er enghraifft, beth mae'r Asesiad yn ei ddweud wrthym am lesiant? A yw'r dulliau presennol yn ddigonol? Pa weithgaredd pellach sydd ei angen a pha gydweithredu all fynd i'r afael â'r materion ac ati? Bydd y rhain yn ystyriaethau pwysig wrth i sylw symud tuag at ddatblygiad eich cynllun llesiant.

Cynnwys
Mae cynnwys crynodeb gweithredol yn ddefnyddiol ac yn eich galluogi i ganfod 14 o faterion/cyfleoedd. Fel y dywedwch, mae hyn er mwyn helpu i "*symud o fan gyda llawer o wybodaeth i fan lle gallwch weld y cysylltiadau, y tensiynau, a'r cyfleoedd."*

Mae strwythur yr asesiad drafft yn gweithio'n dda ac yn dangos dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n cynnwys dadansoddiad yn ôl pedwar dimensiwn llesiant ochr yn ochr â chrynodebau ar gyfer pob un o'r saith nod llesiant.

Ar gyfer pob dimensiwn llesiant, mae pum adran allweddol: asedau a heriau presennol; newid disgwyliedig (cyfleoedd a risg); yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthych; cyfleoedd ar gyfer ymyriadau; a phynciau o fewn pob thema. Yn yr un modd, mae pob maes pwnc yn sefydlu tueddiadau'r gorffennol a'r dyfodol ochr yn ochr ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r penodau ar nodau llesiant yn dwyn at ei gilydd wybodaeth a gyflwynir ar draws yr asesiad yn grynodebau sy'n cyd-fynd â nodau llesiant Cymru i "*helpu partneriaid a chymunedau i weld y cysylltiadau, y tensiynau a'r cyfleoedd*." Mae hon yn nodwedd gadarnhaol ac mae'r penodau'n rhoi trosolwg da o wybodaeth, yn cynnwys blaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r cwestiynau allweddol a ofynnir tuag at ddiwedd pob adran hefyd yn graff, e.e., o dan Cymru Lewyrchus, mae'n gofyn "*I ba raddau yr ydym yn teimlo ein bod yn cefnogi'r*

economi carbon isel gyda'r gwahanol setiau sgiliau sydd eu hangen yn awr, ac a fydd eu hangen yn y dyfodol?"

Mae'r adran 'Cyfleoedd ar gyfer ymyriadau wedi eu targedu' o fewn y themâu llesiant yn gweithio'n dda drwy roi gwybodaeth gryno i aelodau'r BGC ac eraill i fod yn ymwybodol ohonynt. Er enghraifft, mae'r bennod ar economi llesiant yn cynnwys pwyntiau ar yr economi llesiant, twristiaeth, Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, y cysyniad o gymdogaeth 20-munud ac ati.

Yn yr un modd, mae'r tabl 'cyfeiriadur pynciau' yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer amlinellu sut mae pynciau'n alinio â'r nodau llesiant, yn amrywio o sgiliau, cyflogaeth a thwristiaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth a chydlyniant a lleihau allyriadau. Mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth bod y saith nod wedi eu dylunio i gael eu hystyried mewn dull integredig, ac nid ar eu pennau eu hunain.

Mae strwythur yr asesiad drafft yn ei alluogi i ddangos y cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau llesiant. Mae yna risg y gall asesiadau llesiant ystyried pynciau a themâu ar eu pennau eu hunain, ond caiff hyn ei osgoi drwy eich penderfyniad i ystyried pob pwnc o wahanol onglau a phersbectifau.

Mae'r asesiad yn creu cysylltiadau ag adroddiadau ac asesiadau ehangach yn gyson i drwytho ei ganfyddiadau. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer sicrhau bod y dadansoddiad a'r casgliadau o fewn yr asesiad yn debygol o barhau yn berthnasol i gynllunio a phenderfyniadau'r BGC ar gyfer y dyfodol. Yn y tymor hwy, yn y rownd nesaf o asesiadau a chynlluniau llesiant, bydd gan eich BGC y dystiolaeth i fyfyrio ar ba mor dda y cyflwynwyd eu gweithgareddau yn erbyn polisi hinsawdd heriol sy'n cynnwys yr argyfwng hinsawdd, Brexit a'r pandemig Covid-19. Mae enghreifftiau da o fewn yr adroddiad yn cynnwys yr adran 'Sector Allweddol Cyflogaeth – Twristiaeth' sy'n cyfeirio at ymchwil o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn cynnwys eu papur briffio ar effeithiau Covid-19 a Brexit ar lesiant, ochr yn ochr â setiau data cenedlaethol a strategaethau megis strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru.

Un o gryfderau'n asesiad yw'r cydbwysedd a enillir rhwng y penodau sy'n rhoi gwybodaeth a naratif cenedlaethol, strategol, sydd wedyn yn cael ei ategu gan yr wybodaeth yn y tab 'Ardaloedd Cymunedol'. Mae trosolwg ardal gymunedol Sir Ddinbych, yn arbennig, yn rhoi gwybodaeth leol gyfoethog mewn perthynas â phob un o'r 7 nod llesiant. Er enghraifft, mae'n amlygu yn Elwy (yn y bennod Cymru Gydnerth) nifer o welliannau amgylcheddol lleol a gynlluniwyd (e.e. dynodi a rheoli Gwarchodfa Natur Leol Rhuddlan) ynghyd â phryderon allweddol ar gyfer yr ardal gan gynnwys llifogydd yn Llanelwy, Rhuddlan a thir amaethyddol.

Mae'r bennod ar lesiant diwylliannol yn rhoi trosolwg da, gan archwilio amrywiaeth o feysydd sy'n cynnwys y Gymraeg, amaethyddiaeth, cydraddoldeb, addysg ac ati. Mae'r ffocws ar 'ddiogelwch bwyd a'r sectorau amaethyddol a bwyd lleol' o fewn y bennod llesiant amgylcheddol hefyd yn wych i'w weld. Ategir hyn gan yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthych, a amlygodd werthfawrogiad busnesau ffermio a bwyd lleol a'r brwdfrydedd wrth weld y sectorau hyn yn tyfu ac yn cyflogi mwy o bobl, gan gadw gwariant lleol a chymorth i'r newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio ffynonellau lleol.

Rydym yn nodi'r gydnabyddiaeth gadarnhaol yn yr asesiad o rôl y sector cyhoeddus yn y dasg o fynd i'r afael â'i gyfraniad i allyriadau carbon, gan gydnabod y "*dulliau o ysgogi carbon is yn ehangach, ar draws daearyddiaethau, er enghraifft, trwy gaffael, cynllunio gwasanaethau a chyfundrefnau rheoleiddio*." Yn adran 3 isod, rydym yn cynnwys dolen i'n hadnodd cryno ar gaffael sy'n rhoi crynodeb defnyddiol o weledigaeth y Comisiynydd ar gyfer caffael.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Mae'r pwnc 'Trafnidiaeth a Diogelwch Ffyrdd' yn gwneud cysylltiadau ar draws llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac mae'n galonogol i weld cyfeiriadau'n cael eu gwneud at Llwybr Newydd (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021).

Mae'r troednodiadau ar ddiwedd pob adran yn ei gwneud yn hawdd nodi ffynonellau data drwyddi draw.

3: Meysydd y gellid eu datblygu ymhellach

Meysydd pwysig i'w hystyried

Gan adeiladu ar y gwaith helaeth sydd eisoes wedi ei gyflawni ar gyfer eich asesiad llesiant, gweler isod feysydd yr ydym yn eu hystyried yn bwysig ar gyfer cael eu hystyried gennych, a fedrent, drwy gael eu datblygu ymhellach, helpu i gryfhau'r asesiad yn gyffredinol.

Ymgyfraniad

Mae'n galonogol i glywed eich bod wedi mabwysiadu ymagwedd 'a arweinir gan ymgysylltu', gyda chyfraniadau oddi wrth y cyhoedd, grwpiau cymunedol, pobl ifanc, busnesau lleol a staff sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus, trwy weithdai ac arolygon ar-lein.

Mae'r asesiad yn onest wrth adlewyrchu heriau ymgysylltu yn ystod y pandemig, a gyfrannodd at fychander y gyfradd ymateb. Mae'n gadarnhaol eich bod yn tynnu sylw at yr adborth adeiladol o ansawdd da a gawsoch, a bod y bobl ifanc y siaradoch â hwy wedi ymgysylltu mewn dull cadarnhaol.

Rydych chi'n darparu trosolwg defnyddiol o'ch gweithgaredd ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys: adolygiad o'r holl ymgysylltu diweddar; rhedeg Sgwrs y Sir gyda phobl ar draws Siroedd Conwy a Dinbych trwy weithdai rhithwir a holiaduron; grwpiau ffocws rhithwir gyda phobl ifanc; fforwm llais cymunedol rhyngweithiol rhanbarthol ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau 'nad ydynt yn cael eu clywed yn aml'; ymgyfraniad staff; ac ymgysylltu ag aelodau etholedig.

Mae'r adrannau am ' yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym' yn rhoi trosolwg clir a chryf o'r hyn y mae pobl wedi'i fynegi am rai o'r themâu allweddol ar gyfer yr ardal. Er enghraifft, mae'n arbennig o drawiadol o fewn y bennod ar 'Lesiant economaidd' faint o'r adborth sy'n ffocysu ar newid hinsawdd a'r amgylchedd, gan gwmpasu meysydd fel datgarboneiddio (e.e. tai, trafnidiaeth ac ati), gwell trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, seilwaith i helpu ffyrdd llesol o fyw, yr awydd i ddenu cyflogwyr 'gwyrdd' i'r ardal a phwyslais cryf ar dwristiaeth ac ati.

Wrth edrych ymlaen, rydych yn nodi mai *"dim ond dechrau'r sgwrs yw hyn a byddwn yn parhau i ymgysylltu â phobl wrth i ni gwblhau'r asesiad a datblygu ein hamcanion llesiant a'n cynllun ar gyfer y dyfodol."*

Gyda hyn mewn golwg, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r asesiad yn cynnwys rhywfaint o fyfyrio pellach ar eich ffordd o feddwl a'ch dull o ennyn ymgyfraniad pobl yn y dyfodol, wrth i sylw symud tuag at y cynllun llesiant. Er enghraifft, a ydych chi'n glir ynghylch yr hyn rydych chi'n teimlo sydd wedi gweithio'n dda, a'r meysydd rydych chi'n teimlo y gallech (o bosibl) eu gwella? Gan adeiladu ar eich fforwm ar gyfer 'cynrychiolwyr grwpiau nas clywir yn aml', a ydych yn archwilio ymagweddau neu dechnegau eraill ar gyfer ymgysylltu â lleisiau nas clywir yn aml? A oes cyfleoedd i ymgorffori rhai profiadau byw yn eich asesiad, neu ddyluniad eich cynllun llesiant, a fedrai alluogi trigolion yn eich ardal i adrodd eu stori yn llawnach? Ac a oes unrhyw wersi o'ch gwaith cydweithredol ar

ymgyfrannu, ac yn eich cyfranogiad i waith sy'n cael ei gynorthwyo gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.

Mae defnyddio a mabwysiadu technegau ymgyfrannu arloesol sy'n mynd tu hwnt i ymgysylltu ac sy'n symud tuag at gyd-gynhyrchu yn bwysig i bob BGC. I helpu i drwytho cyfnodau nesaf eich proses cynllunio llesiant, mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru'n cynhyrchu cyngor ac arweiniad sy'n seiliedig ar y modd y mae ymgyfraniad a chyd-gynhyrchu wedi dod yn rhan hanfodol o'r broses lesiant hyd yn hyn. Rydyn ni'n annog eich timau BGC a chydweithredwyr i helpu i lunio'r arweiniad hwn gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wrth iddo ddatblygu.

Tueddiadau'r dyfodol
Mae'r asesiad drafft yn dangos ystyriaeth a chyfeiriad at wybodaeth tymor hwy. Mae hyn i'w ganfod yn bennaf yn naratif y penodau dimensiwn llesiant a'r adrannau 'yr hyn rydym yn ei wybod neu'n ei ragweld am y dyfodol' ym mhob pwnc. Er enghraifft, mae'r adran 'Newid disgwyliedig: risgiau a chyfleoedd' yn y bennod ar lesiant amgylcheddol yn edrych ar y darlun tymor hwy o feysydd fel adferiad natur, cydnerthedd/addasiad i newid hinsawdd, ynni, bwyd a thechnoleg a thrafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth a gymerwyd o 'dec tueddiadau' Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU, sy'n beth calonogol i'w weld.

Tra bo llawer o'r naratif yn strategol ac eang ei natur, mae'n braf gweld peth archwiliad o'r hyn y gallai'r darlun hirdymor ei olygu i'ch ardal yn lleol. Er enghraifft, mae'r bennod ar lesiant cymdeithasol yn rhestru ystod o fras heriau a chaiff ei hategu gan wybodaeth leol sy'n dangos siroedd Conwy a Dinbych fel rhai â nifer mawr o bobl sy'n darparu gofal di-dâl, a rhai ardaloedd llai megis is-ardal 'Dwyrain' Conwy â lefelau uchel o gyfyngu ar salwch hirdymor a chyfrannau uwch o ofalwyr di-dâl.

Yn gyffredinol, mae'n amlwg bod llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddeall a chyflwyno eich dadansoddiad o'r darlun tymor hwy. Gan adeiladu ar y gwaith cadarnhaol hwn, byddai'r asesiad drafft yn cael ei gryfhau pe gellid gwneud cysylltiadau cliriach ag adroddiad tueddiadau'r dyfodol 2021 ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Mae hwn yn cynnwys sicrhau eich bod wedi gwneud y cysylltiadau â'r pedwar dull o sbarduno newid, a'r ddau ddull o sbarduno gwasanaeth cyhoeddus a nodir ganddo.

Rydyn ni hefyd yn eich annog i sicrhau bod pob un o'r pynciau a nodwyd o fewn eich asesiad yn cynnwys peth dadansoddiad a dehongliad o'r hyn y gallai tueddiadau allweddol y dyfodol eu golygu i Siroedd Conwy a Dinbych yn lleol, lle mae hynny'n bosibl. Fel y'u cyflwynir ar hyn o bryd, nid yw hyn bob amser yn gyson ar draws y pynciau. Mae nodi'r cysylltiadau a'r goblygiadau posibl rhwng y tueddiadau eang, lefel uchel â'ch cyd-destun lleol yn bwysig iawn i'r BGC wrth i waith gychwyn ar ei gynllun llesiant.

Gan edrych i'r dyfodol, byddai hefyd yn ddefnyddiol petai mewnwelediad ychwanegol yn cael ei ddarparu i ddeall sut y bydd y BGC yn parhau i ystyried a sefydlu gwybodaeth ar dueddiadau'r dyfodol wrth i'w ffocws symud i'r cynllun llesiant, a gosod amcanion a chamau. Mae technegau'r dyfodol yn ddulliau effeithiol o ymgysylltu ag eraill a hyrwyddo trafodaeth adeiladol mewn ffordd a fedr helpu i ddatblygu cynlluniau a fydd yn cyflawni newid gwerthchweil. Yn eu hadborth i'r BGCau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnig rhedeg gweithdy Tri Gorwel i helpu i gynorthwyo ymgorffori tueddiadau'r dyfodol yn y broses cynllunio llesiant, ac rydym yn eich annog i ystyried derbyn y cynnig hwn os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Ynghyd â'ch cynlluniau ar gyfer ymgysylltiad parhaus, rydym hefyd yn eich annog i ennyn ymgyfraniad y bobl a'r cymunedau yr ydych yn ystyried fel y rhai sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y tueddiadau yr ydych wedi eu hamlygu fel y rhai mwyaf perthnasol i'ch ardal. Mae hyn i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Bydd gwell dealltwriaeth o'u pryderon a'u blaenoriaethau hwy ar gyfer gweithredu yn helpu i gynllunio eich camau nesaf.

Cydraddoldeb
Mae'r pwnc 'Cydraddoldeb, amrywiaeth a chydlyniad cymunedol' yn rhoi trosolwg da ac mae'n gadarnhaol i'ch clywed yn datgan bod yr asesiad hwn wedi gwella dadansoddiad o fwlch llesiant pobl a nodweddion gwarchodedig neu bobl mewn tlodi.

Enghraifft o arfer da yw'r gwaith ar ddatblygu'r fforwm lleisiau cymunedol rhyngweithiol rhanbarthol ar gyfer 'cynrychiolwyr grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml', i sicrhau bod persbectifau ehangach y cael eu cynnwys o fewn yr asesiad. Yma, rydych yn tynnu sylw at dros 50 o sefydliadau a fynychwyd a chafodd gweithdai ychwanegol eu cynnig i fforymau pobl Fyddar a Nam ar y Golwg.

Mae'r asesiad yn cydnabod rhai bylchau mewn gwybodaeth a data. Er enghraifft, o dan y pwnc 'sgiliau', mae'n nodi bod angen gwell dealltwriaeth o ddeilliannau addysgol pobl â nodweddion gwarchodedig wrth symud ymlaen. A thra'ch bod yn nodi nad oes data ar gael yn genedlaethol nac yn lleol i asesu sut mae croestoriadedd yn effeithio ar lesiant, mae'n gadarnhaol eich bod wedi cydnabod hyn, gan amlygu sut y gall pobl feddu ar hunaniaeth sy'n gorgyffwrdd neu nodweddion gwarchodedig lluosog.

Gan adeiladu ar y gwaith cadarnhaol a wnaed hyd yma, rydym yn argymell sicrhau bod yr holl 'nodweddion gwarchodedig' a amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu hystyried yn yr asesiad.

Parthed y pandemig, mae'n galonogol i weld yr asesiad yn cydnabod sut y gwnaeth ddatgelu anghydraddoldebau presennol a bod y canlyniadau iechyd a llesiant hirdymor hefyd yn debygol o fod yn anghyfartal, gan ddwysáu anghydraddoldebau iechyd ymhlith unigolion o gefndiroedd tlotach a difreintiedig, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau difreintiedig.

Er mwyn helpu'r BGC i archwilio sut i weithio ar y cyd i atal hyn, rydym yn eich annog i ystyried goblygiadau ein hadroddiad diweddar 'Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol'. Mae'n amlygu dyfodol gwaith, demograffeg sy'n newid a sut y gallai newid yn yr hinsawdd gynyddu'r anghydraddoldebau presennol os nad yw'r effeithiau ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas yn cael eu hystyried.

Y Gymraeg
Mae'n braf clywed bod pobl, drwy eich ymgysylltiad, wedi dweud wrthych am bwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant i'w cymunedau. Roedd hyn yn cynnwys adborth oedd yn nodi dymuniad i weld mwy yn cael ei wneud i'w chynnal, ei gwerthfawrogi a'i hamddiffyn, gydag awgrymiadau megis dosbarthiadau Cymraeg hygyrch a fforddiadwy yn y gymuned ac mewn ysgolion.

Yn gyffredinol, mae'r ganran o bobl sy'n medru'r Gymraeg yn uwch yng Nghonwy (41%) ac yn Sir Ddinbych (31%) na'r cyfartaledd yng Nghymru (29%). Er gwaethaf hyn, rydym yn cydnabod eich gwerthusiad bod ei defnydd mewn bywyd bod dydd yn peri pryder mawr, gan y gellir dadlau ei fod '*y dangosydd cryfaf o fywiogrwydd yr iaith'.* Rydych hefyd yn cyfeirio at yr ymchwil cenedlaethol

sy'n awgrymu bod y defnydd o'r Gymraeg yn dioddef dirywiad hirdymor ac yn dweud bod angen rhagor o waith i ddatblygu eich dealltwriaeth o dueddiadau lleol.

Wrth symud i osod amcanion a chamau yn eich cynllun llesiant, rydym yn argymell y dylid gwneud cysylltiadau clir â strategaethau hyrwyddo pob awdurdod lleol a'ch Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg berthnasol.

Cyflwyniad a chynllun
Mae'r asesiad drafft wedi'i gyflwyno'n glir gyda strwythur wedi'i osod yn ôl methodoleg, dimensiynau llesiant, nodau llesiant, ardaloedd cymunedol a chyfeiriadur pynciau. Tra bo'r strwythur hwn yn gweithio'n dda ac yn sicrhau ymdriniaeth gynhwysfawr a thrylwyr o faterion a phynciau allweddol, weithiau mae'n heriol i'r darllenydd wybod a yw wedi ymdrin â'r holl gynnwys sy'n ymwneud â phwnc neu thema benodol.

Gwerthfawrogir y bydd eich amser i ystyried hyn cyn cyhoeddi eich asesiad terfynol yn gyfyngedig, ond byddem yn eich annog i ystyried a oes unrhyw gamau bach y gallwch eu cymryd a allai helpu i symleiddio hygyrchedd a strwythur yr asesiad yn gyffredinol i'w wneud yn haws i'w ddilyn. Bydd hyn hefyd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer datblygu a chyflwyno eich cynllun llesiant.

Macsimeiddio cyfraniad y BGCau i nodau llesiant Cymru
Gall deall diffiniad llawn o nodau llesiant Cymru helpu i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried yr ystod eang o bynciau a themâu llesiant yn eich ardal.

Mae'r tabl isod yn nodi meysydd y gellid eu harchwilio ymhellach o fewn yr asesiad, ac/neu eu hystyried ar gyfer y cynllun llesiant.

Gwerthfawrogir y gall na fydd yn bosibl i'r holl wybodaeth isod gael ei hystyried yn llawn/ei hymgorffori yn eich asesiad. Yn hytrach, efallai y byddwch yn dymuno dewis rhai meysydd i ategu'r gwaith helaeth yr ydych wedi ei gyflawni eisoes:

Sgiliau ar gyfer y dyfodol	Mae'r asesiad yn ystyried cyrhaeddiad addysgol, a rhai anghenion sgiliau yn y dyfodol yn ôl sectorau twf megis ynni, iechyd a gofal cymdeithasol, a materion digidol a chreadigol. Gan adeiladu ar hyn, rydym yn eich annog i ystyried y canfyddiadau yn ein hadroddiad diweddar yma ar y sgiliau sydd eu hangen i drawsnewid i economi carbon isel. Mae'n canfod bod bylchau sgiliau sylweddol ledled Cymru mewn diwydiannau gwyrdd y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwynt.
Fframwaith Rhanbarthol Economaidd Gogledd Cymru	Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru yn adnodd pwysig y gallai'r BGC ei ystyried, yn arbennig mewn trafodaethau ar sgiliau sectorau cyflogi allweddol.
Yr economi sylfaenol a chadwyni cyflenwi teg a lleol	Mae'n gadarnhaol i weld y pwnc 'Cynorthwyo busnesau bach' a'r asesiad yn *cydnabod "dulliau o ysgogi carbon is yn ehangach, ar draws daearyddiaethau, er enghraifft trwy gaffael, cynllunio gwasanaethau a chyfundrefnau rheoleiddio*. Mae ein hadnodd cryno ar gaffael yn rhoi crynodeb defnyddiol o weledigaeth y Comisiynydd o gaffael, sy'n nodi'r materion allweddol a amlygwyd gan gyrff cyhoeddus yn ystod yr ymchwil

	a'r Adolygiad Adran 20, yn ogystal â'r argymhellion a amlinellir yn ein hadroddiad 'Caffael llesiant yng Nghymru'.
Yr economi cylchol a defnydd	Mae ailgylchu a lleihau gwastraff yn cael eu cwmpasu o fewn yr asesiad, gyda chyfeiriad at strategaeth Cymru 'Ddiwastraff'. Gallai'r asesiad archwilio ymhellach yr hyn a olyga strategaeth economi cylchol i'ch ardal e.e. helpu cymunedau i rannu eitemau, gwastraff bwyd, fflyd cerbydau trydan ac ati. Dylai BGCau fod yn chwilio am ddulliau o ddeall sut y gall ymagwedd economi cylchol eu helpu i ateb nifer o flaenoriaethau llesiant.

Meysydd eraill i'w hystyried (dymunol)

Y rhain yw'r meysydd y gall y byddwch yn dymuno eu diwygio/diweddaru i gryfhau'r asesiad yn gyffredinol

Cydweithio

Mae rhywfaint o dystiolaeth gref i awgrymu bod yr asesiad llesiant wedi'i gynnal mewn modd cydweithredol, gyda'r ddau awdurdod lleol yn cydweithio ochr yn ochr â gwneud gwaith rhanddeiliaid ehangach yn rhan annatod o'r canfyddiadau. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu rhagor o fanylion am eich cydweithrediad yn yr adran 'Cyflwyniad a chefndir' a phe bai'r asesiad yn nodi'r holl bartneriaid a'r modd y rheolwyd y cydweithredu. Mae cydweithredu traws-sector yn ddull heriol, ond effeithiol yn aml, o gyflawni newid cymdeithasol, a byddai'r wybodaeth hon yn helpu dysgu yn y dyfodol.

'Yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud wrthym'

Mae'r adrannau hyn yn un o gryfderau gwirionedd yr asesiad. Gall y byddwch hefyd yn dymuno ystyried crynodeb o benawdau yn yr adrannau hyn, i helpu i grynhoi'r negeseuon cyfoethog sy'n cael eu rhannu yn y naratif drwyddi draw. Ar ddiwedd yr adran ar lesiant economaidd, rydych yn crybwyll pa mor bwerus yw dyfyniad preswylydd am Sgwâr San Pedr yn Rhuthun. Byddai cynnwys mwy o enghreifftiau o ddyfyniadau'n cryfhau'r adrannau hyn.

Nodau llesiant

Mae'r cwestiynau allweddol a ofynnir ar ddiwedd pob adran ar nodau llesiant yn graff. Er enghraifft, o dan Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang, mae'n gofyn: "*A oes gennym ni wybodaeth bod gwastraff yn mynd dramor*?" ac "*A oes gennym ni unrhyw Drefi Lloches i ffoaduriaid*?" Byddai'n ddefnyddiol pe gellid rhoi esboniad byr o'r modd y mae'r BGC yn bwriadu chwilio am atebion i'r cwestiynau hyn.

Llesiant diwylliannol

Mae'r bennod ar lesiant diwylliannol yn rhoi trosolwg da o'r ardal ac yn amlygu'r potensial ar gyfer ymagwedd Gogledd Cymru tuag at facsimeiddio cyfleoedd sy'n deillio o dwristiaeth ac adfywio, i sicrhau bod manteision yn cael eu hanelu at ardaloedd a grwpiau y mae eu llesiant yn tueddu i fod yn waeth.

Gan gadw hyn mewn golwg, a ellir cynnwys neu gyfeirio at wybodaeth ychwanegol am strategaeth ddiwylliannol Conwy? Rydym ar ddeall bod Conwy wedi derbyn peth cyllid adnewyddu cymunedol, gyda phrosiectau'n ffocysu ar dwristiaeth gynaliadwy/ddiwylliannol a gwaith sy'n archwilio cydweithio mwy effeithiol ar sectorau diwylliant a chelf yn yr ardal.

Mân ystyriaethau

- Gellid dileu'r tablau sydd "heb ddata".

- O dan y pwnc 'Mynd i'r Afael â Gordewdra', yn 'beth sy'n digwydd nawr' gall y bydd angen gwirio'r ystadegau ymhellach, gan yr ymddengys y gallai fod gan rai pwyntiau bwled ddigidau ar goll o rai o'r canrannau ar ordewdra.

4: Adnoddau i helpu i drwytho eich camau nesaf

Isod, wele adnoddau a fedr helpu i drwytho eich camau nesaf, wrth i chi symud o asesiad llesiant i gynllun llesiant:

- Pennod 4 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: '**Gosod Amcanion Llesiant Da'**
- **'Fframwaith Prosiectau Cenedlaethau'r Dyfodol'**
- **Astudiaethau achos** o'r modd y mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu ar lawr gwlad yng Nghymru
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: **Adnoddau**